# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygor a gynhaliwyd hybrid yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol dros Zoom

**Nos Iau 27 Mawrth 2025 am 7.00**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Huw V Jones

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. E Mary Jones.

**Ymddiheuriadau** – Y Cyngr. Paul Rowlinson, Michael Williams, Rheinallt Puw a Catrin Wager.

2. **Datgan Diddordeb**

Datganiadau o diddordeb amrywiol o dan pwynt 6. Rhoddion.

3. **Materion Brys**

**3.1 Parcio Stryd Fawr–** Trafodwyd parcio peryglus ar y stryd fawr. Y clerc i gysylltu â gwasanaeth parcio Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt ymweld a'r Stryd Fawr yn ystod gyda'r nos. Y Clerc i fynd ar ol y Cyngor i holi am paentio'r llinellau melyn.

4. **Cofnodion**

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2025.

5. **Materion yn codi o'r Cofnodion**

**5.1 Cynnig i adolygu ffiniau Cynghorau Bethesda a Llanllechid** – gohebiaeth ychwanegol wedi dod – ymghymoriad ffurffiol wedi dod o'r cyngor.
**5.1 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig –** Cytunwyd bydd y tirfeddiannwr yn creu les newydd - ar y gweill.
**5.2 Lon Newydd - Dŵr yn llifo –** Nodwyd fod Uned Gwaith Stryd y Gwasanaeth Amgylchedd yn mynd i godi rhybudd dan Adran 72 o'r New Roads and Streetworks Act 1991. Mae Cyngor Gwynedd wedi ceisio cysylltu unwaith eto gyda BT ynglŷn a'r mater ond heb lwyddiant, felly maent nawr yn cael rhybudd ffurfiol ynglŷn a'r gwaith ailosod y ffordd ble mae'r dŵr yn codi – ar y gweill.

**5.3 Cynllun Bioamrywiaeth -** Y Clerc am trosgwlyddo wybodaeth i'r clerc newydd. Yr Cyng. Catrin Wager ac yr Clerc newydd i edrych dros y ddogfen, ac yna ei ail gyflwyno i'r Cyngor.
**5.4 Cysgodfan Bws ger Maes Bleddyn -** Wedi penderfynu lleoliad ar gyfer y safle bws newydd. Bydd y Clerc yn trosglwyddo'r wybodaeth anghenreidiol i'r clerc newydd.
**5.5 Ffordd rhwng Sgwâr Rachub a Hen Barc** – Cadarnhawyd gan y Cynghorydd Einir Williams fod y ffordd rhwng sgwar rachub a Hen Barc ar y rhestr rhaglen waith 2025-26.

**6. Lwfans Blynyddol**
Pawb wedi derbyn ebost gan y Clerc gyda'r ffurflen 'Rhestr Wirio' gan CThEM os ydynt am dderbyn y taliad neu'r ffurflen 'optio allan'. Yr aelodau i lenwi'r ffurflen perthnasol a'i anfon yn ôl at y Clerc, cyn gynted a bo modd.

**7. Rhoddion**
Trafodwyd y rhestr rhoddion. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Llais Ogwen: | £500.00 | *Datgan diddordeb NH, PR, WW* |
| Clwb Camera Dyffryn Ogwen: | £150.00 | |
| Apel Cronfa Cyfle i bawb yr Urdd: | £100.00 | |
| Ambiwlans Awyr Cymru: | £200.00 | |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen: | £150.00 | |
| Hwb Ogwen: | £500.00 | |
| Theatr Bara Caws: | £300.00 | |
| Urdd Gobaith Cymru: | £100.00 | |
| Nant Ffrancon Brownies: | £50.00 | |
| Dawns i Bawb: | £100.00 | |
| Academi Darts: | £100.00 | |
| Clwb Criced a Bowlio Bethesda: | £300.00 | |
| Radio Ysbyty Gwynedd: | £100.00 | |
| Sefydliad y Merched Carneddi: | £50.00 | |
| Marie Curie: | £50.00 | |
| Eglwys Glanogwen: | £500.00 | *Datgan diddordeb AW* |
| Eisteddfod Dyffryn Ogwen: | £500.00 | *Datgan diddordeb WW, MJ, LB, NH* |

**8. Polisi Iaith**
Cyflwynwyd Polisi Iaith Drafft i'r Cyngor, yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd mabwysiadwy'r ddogfen. Y Cadeirydd i arwyddo.

**9. Maes Parcio Gerlan**
Adroddwyd fod y gofrestr tir wedi'i diweddaru o'r diwedd, y Clerc yn disgwyl am y dogfennau perthnasol gan y cyfreithwyr.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mawrth 2025'
**10.1 Un Llais Cymru – Aelodaeth 2025-26 –** Penderfynwyd ail-ymaelodi am yr flwyddyn 2025-2026.
**10.2 Parc Cenedlaethol Eryri. Ymgynghoriad Cyhoeddus: Canllaw Cynllunio Atodol Drafft: Rheoli'r defnydd o dai fel cartefi gwyliau -** Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi'r ddogfen.

**10.3 Cyfeillion Llyn –** Ail gyflwyno mis nesaf. Y clerc i wneud yn siŵr bod gan bawb fynediad i'r ddogfen.
**10.4 Arolygon Cymunedol - Newid Ffiniau –** Penderfynwyd ail gyflwyno'r eitem hwn mis nesaf.
**10.5 Arwyddion Bethesda i'r Safle Treftadaeth y Byd:** Nodwyd y Clerc fod Donna Watts wedi danfon sylwadau, a phenderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi'r sylwadau hyn.

**10. Penderfyniadau a Cheisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C23/0207/13/CR**<br>Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C24/0138/13/LL**<br>1 Yr Ardd Fawr, Ffordd Gerlan, Gerlan | Codi annedd deuluol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C24/0809/13/DT**<br>36 Glanogwen, Bethesda | Dymchwel estyniad unllawr ochr presennol, a chodi estyniad unllawr ochr newydd.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau. |
| **C24/0827/13/LL**<br>Stryd Goronwy, Bethesda | Creu ffordd fynediad i ganiatáu parcio oddi ar y ffordd i 11 o geir.<br>**Penderfyniad:** Gwrthodwyd. |
| **C24/0903/13/DT**<br>Bwthyn Wiwer, 93 Ffordd Carneddi, Carneddi | Dymchwel estyniad unllawr presennol i gefn yr eiddo. Codi estyniad deulawr i gefn yr eiddo a chodi lefel yr uchder to presennol.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**<u>Ceisiadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C25/0145/13/CC**<br>Bro'r Awen, Stryd Fawr, Bethesda | Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed<br>**Penderfyniad:** Cefnogi |

**11. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Scottish Power | Goleuadau Nadolig | £218.40 |
| Partneriaeth Ogwen | Torch Sul y Cofio | £29.49 |
| Partneriaeth Ogwen | Nwyddau o Screwfix ar gyfer tô sied Llys Dafydd | £24.97 |
| John Wyn Jones | Cyflog Mawrth 2025 | £436.53 |

| | | |
|---|---|---|
| CThEM | TWE Mawrth 2025 | £109.20 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwariant yn Screwfix - Gorffwysfan | £95.99 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwariant C L Jones - Gorffwysfan | £59.51 |

**12. Crynodeb Llais Ogwen**

- Maes Parcio Gerlan
- Rhestr Rhoddion
- Arolygon Cymunedol - Newid Ffiniau
- Tîm Tacluso – Ward Gerlan